**DIOGELU PLANT SYDD WEDI'U LLEOLI GYDA**

**DARPAR RIENI MABWYSIADOL**

Cyflwyniad

Crëwyd y canllawiau hyn i ddarparu ymateb Cymru gyfan i adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau o achosion difrifol sy’n ymwneud â phlant sydd wedi’u lleoli gyda darpar rieni mabwysiadol. Mae'n tynnu ar argymhellion yr adolygiadau a'r arfer da a rennir ar draws y cydweithfeydd rhanbarthol a'r AMGau yng Nghymru yn ogystal ag ymchwil a wnaed gan Cleaver a Rose, 2020[1] sy'n amlinellu pwysigrwydd cadw ffocws diogelu wrth weithio gyda mabwysiadwyr wrth asesu a darparu cymorth. Mae'n nodi'n glir y cyfrifoldebau diogelu plant sydd wedi'u lleoli i'w mabwysiadu ar yr holl staff gofal plant ar draws rhanbarthau, AMGau ac awdurdodau lleol. Wrth ystyried y canllawiau hyn, atgoffir ymarferwyr hefyd i gyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Diogelu Cymru a Pholisïau a Gweithdrefnau Mabwysiadu Cymru Gyfan y gellir eu cyrchu trwy'r Canllawiau Arfer Da (adoptionapp.wales) canlynol.

Yr hyn mae'r canllawiau'n ei gynnwys

1. Caniatâd i ddarpar fabwysiadwyr rannu gwybodaeth yn ystod y broses asesu
2. Ymweliadau â phlant unwaith y bydd y lleoliad yn dechrau
3. Cofnodi ymweliadau
4. Cronoleg o ddigwyddiadau arwyddocaol
5. Adolygiadau o blant
6. Rôl teuluoedd a ffrindiau wrth ddiogelu
7. Darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr cymeradwy

Mae nifer o ddogfennau/profformau y dylid eu defnyddio o dan bob un o'r penawdau hyn, ac maent yn dilyn y canllawiau ym mhrif gorff y ddogfen.

## 1. Caniatâd i ddarpar fabwysiadwyr rannu gwybodaeth yn ystod y broses asesu

[1] Safeguarding Children: Living with Foster Carers, Adopters and Special Guardians: learning from Serious Case Reviews, 2007-2019; H Cleaver & W Rose, 2020 CoramBAAF

Dylai'r gydweithfa ranbarthol/AMG sicrhau, o'r pwynt cyswllt cyntaf, ei bod yn glir y bydd yr Asiantaeth Fabwysiadu (AF) yn ceisio gwybodaeth am y darpar fabwysiadwr o nifer o ffynonellau.

Dylid cyfleu'r pwyntiau isod:

- Mae'r broses asesu yn gadarn
- Efallai y bydd yn teimlo'n ymwthiol, gan fod gwybodaeth yn cael ei cheisio nid yn unig gan eu meddyg teulu ond gan ymarferwyr iechyd eraill, therapyddion a chwnselwyr y gallent fod wedi gofyn am help ganddynt. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol, sy'n mynd yn ôl trwy gydol eu hamser fel oedolyn
- Mae dyletswydd ar ddarpar fabwysiadwyr i ddatgelu unrhyw hanes perthynas o'r fath. Bydd unrhyw ddiffyg gonestrwydd yn cael ei ystyried yn bryder ynghylch eu gallu i weithio'n agored ac yn onest gyda'r AF a gallai hyn effeithio ar eu gallu i ofalu am blentyn yn ddiogel ac yn unol â'u buddiannau gorau.
- Mae'n ddigon posibl bod y ffaith eu bod wedi ceisio cymorth therapiwtig ar ryw ffurf yn arwydd o'u cryfder a'u gwydnwch, ond mae'n bwysig bod gan yr AF yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn eu cefnogi yn y broses asesu ac, os ydynt yn llwyddiannus, y broses baru.
- Bydd y ffurflen Cofrestru Buddiannau yn amlinellu'r math o ganiatâd y gofynnir iddynt ei ddarparu.

Gellid ychwanegu'r canlynol at y ffurflenni Cofrestru Buddiannau a bydd llofnodion yn cael eu caffael.

### Atodiad 1(a): Cydsyniad

- Rwy'n cydsynio i'r asiantaeth ofyn am wybodaeth (yn ysgrifenedig, mewn e-bost neu ar lafar) gan unigolion, asiantaethau neu sefydliadau a nodir gennyf i neu gan yr asiantaeth i gefnogi'r Cofrestriad Buddiannau hwn.
- Rwy'n rhoi fy nghaniatâd i'r Asiantaeth wneud cais am wiriadau, gwybodaeth a geirdaon, gan gynnwys:
  - Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), Cofnodion Heddlu Arbenigol, Gwiriadau Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (CCH),
  - Meddyg Teulu, Cwnselwyr (yn y gorffennol ac ar hyn o bryd), Therapyddion (yn y gorffennol ac ar hyn o bryd), Ymarferydd Iechyd Meddwl (yn y gorffennol ac ar hyn o bryd),
  - Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adrannau Addysg Awdurdodau Lleol,
  - Cyflogwyr (ar hyn o bryd ac yn y gorffennol lle bo angen)
  - Ymwelydd Iechyd a Chofrestru ac Arolygu gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (neu gyfwerth) lle bo hynny'n berthnasol.

  Yn ogystal, rwy'n cydsynio i *unrhyw* wiriadau perthnasol *eraill** mewn cysylltiad â'm cais i ddod yn ddarpar fabwysiadwr
  * Gallai unrhyw wiriadau eraill gynnwys .........

- Rwy'n cydsynio i'r asiantaeth wneud cais am adroddiad ysgrifenedig gan fy Meddyg Teulu am fy iechyd ac rwy'n cytuno i drefnu a chymryd rhan mewn archwiliad meddygol gan fy ymarferydd meddygol cofrestredig a fydd wedyn yn llunio adroddiad ysgrifenedig i'r asiantaeth. Rwyf hefyd yn cydsynio i unrhyw ymholiad pellach y bernir ei fod yn angenrheidiol ac yn enwedig mewn perthynas ag ymholiadau pellach gan

arbenigwyr meddygol. *Felly* rwy'n rhoi fy nghaniatâd i ragor o wybodaeth iechyd gael ei ddarparu gan unrhyw arbenigwyr.

- Rwy'n rhoi fy nghydsyniad ymlaen llaw bod yr asiantaeth, pe bai'n penderfynu wedyn fy mod i/ein bod ni yn addas i fabwysiadu plentyn/plant, yn gallu fy nghyfeirio at wasanaeth cymorth Adoption UK Cymru y cyfeirir ato fel y 'Pasbort Mabwysiadu' a'r '1000 Diwrnod Cyntaf'. Rwy'n deall y bydd gwybodaeth bellach ynglŷn â'r gwasanaeth gwirfoddol rhad ac am ddim hwn yn cael ei ddarparu ar ôl fy nghymeradwyo.

## Atodiad 1(b): Llythyr at gwnselydd/seicotherapydd/seicolegydd ac ati

Annwyl ####,

**<u>PARTHED: cyfeirnod cyfranogiad proffesiynol ar gyfer XXX</u>**

Mae XXX wedi gwneud cais i Gydweithfa Fabwysiadu/AMG YYY i fabwysiadu plentyn.

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn cysylltiad â'r cais uchod ac yn gofyn am eich cymorth wrth asesu'r uchod fel darpar riant mabwysiadol. Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 yn nodi gofyniad i'r asiantaeth fabwysiadu asesu addasrwydd ymgeisydd a gwirio a oes gwybodaeth hysbys i eraill a fyddai'n awgrymu ei bod yn annoeth i ymgeisydd gael ei gymeradwyo.

Yn ogystal â bod gan asiantaethau mabwysiadu gyfrifoldeb i sicrhau nad yw rhieni mabwysiadol yn peri risg i unrhyw blant sy'n cael eu lleoli gyda nhw, rydym yn gwybod bod plant sydd angen cael eu mabwysiadu wedi cael dechrau trawmatig mewn bywyd yn aml a fydd yn effeithio arnynt wrth iddynt dyfu. Gall y trawma hwn hefyd effeithio ar y bobl sy'n gofalu amdanynt a chreu straen ychwanegol na fyddant efallai'n ei ddisgwyl. Mae'n bwysig bod gennym gymaint o wybodaeth â phosibl i allu cefnogi teuluoedd os bydd anawsterau'n codi ar ôl i blentyn gael ei leoli.

Mae'r ymgeisydd wedi rhannu ei fod wedi derbyn cymorth cwnsela/therapiwtig gennych yn y gorffennol neu ei fod yn ei dderbyn ar hyn o bryd. Rydym yn llwyr gydnabod ac yn parchu'r angen am gyfrinachedd a bod y berthynas ymddiriedus rhwng yr ymarferydd proffesiynol a'r defnyddiwr gwasanaeth yn bwysig.

Mae'r ymgeisydd yn ymwybodol ein bod yn gofyn am wybodaeth gennych chi ac wedi rhoi ei ganiatâd wedi'i lofnodi i ni i ofyn am wybodaeth berthnasol gennych chi. Mae'r caniatâd hwn ynghlwm wrth y cais hwn.

Byddwn yn ddiolchgar am yr ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

1. Cadarnhad o'ch rôl a'r gwasanaeth(au) rydych yn eu darparu, neu wedi'u darparu, i'r ymgeisydd.
2. Pa mor hir y mae'r ymgeisydd wedi bod yn derbyn eich cymorth? Rhowch y dyddiadau a'r rhesymau dros ddod â'r cymorth i ben.
3. Eich sylwadau ynghylch ymgysylltiad yr ymgeisydd â'r cymorth rydych yn ei ddarparu/wedi'i ddarparu ac unrhyw effaith rydych wedi sylwi arni.
4. Eich sylwadau ynghylch unrhyw wendidau y sylwyd arnynt sy'n ymwneud â strategaethau ymdopi'r ymgeisydd?

5. Ymwybyddiaeth o unrhyw bryderon neu gyfaddefiadau diogelu hysbys y gellid eu hystyried yn gysylltiedig â diogelu.
6. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y teimlwch a fyddai'n bwysig i ni ei hystyried, gan gynnwys unrhyw wybodaeth yr ydych yn credu a allai effeithio ar allu'r ymgeisydd i fagu plentyn a allai fod wedi dioddef trawma ac ansefydlogrwydd. Os nad ydych wedi cadw cofnod o'ch gwaith gyda'r ymgeisydd, a oes gennych unrhyw atgof ohono?

Gellir dychwelyd eich geirda trwy’r cyfeiriad e-bost neu’r cyfeiriad post a restrir uchod i mi yn bersonol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cais hwn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi neu *[enw'r gweithiwr cymdeithasol].*

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth gyda’r mater hwn.

Yn gywir,

## Atodiad 2: Holiadur Geirda

| HOLIADUR GEIRDA | |
|---|---|
| Enw'r Ymgeisydd/wyr: | |
| **Enw'r Canolwr** | |
| **Cyfeiriad** | |
| **E-bost** | |
| **Ffôn** | |
| **Perthynas â'r ymgeisydd/wyr** | |
| **Pa mor hir mae wedi'i adnabod** | |
| **Pa un o'r canlynol sy'n cynrychioli eich barn orau? Ticiwch un blwch** | |
| Nid oes gen i unrhyw bryderon ynghylch y person a enwir yn mabwysiadu plant ☐<br><br>Nid wyf yn credu bod y person a enwir yn addas i fabwysiadu plant, ac rwyf wedi darparu rhesymau ysgrifenedig dros hyn isod ☐<br><br>Mae gen i bryderon ynghylch a yw'r person a enwir yn addas i fabwysiadu plant, a hoffwn drafod hyn â chi ☐<br><br>Arall ☐ | |
| . **Cadarnhewch eich rôl a'r gwasanaeth(au) rydych yn eu darparu, neu wedi'u darparu, i'r ymgeisydd. Rhowch ddyddiadau a'r rheswm dros ddod â'r cymorth i ben** | |
| | |
| . **Pa mor hir y mae'r ymgeisydd wedi bod yn derbyn eich cymorth?** | |
| | |
| . **Pa gymorth ydych chi'n ei roi neu wedi'i roi'i i'r ymgeisydd a pha sylwadau sydd gennych ynglŷn ag ymgysylltiad yr ymgeisydd?** | |
| | |
| . **Eich sylwadau ynghylch unrhyw wendidau y sylwyd arnynt sy'n ymwneud â strategaethau ymdopi'r ymgeisydd?** | |
| | |
| . **Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw bryderon neu gyfaddefiadau diogelu hysbys y gellid eu hystyried yn gysylltiedig â diogelu?** | |
| | |
| . **Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y teimlwch a fyddai'n bwysig i ni ei hystyried, gan gynnwys unrhyw wybodaeth yr ydych yn credu a allai effeithio ar allu'r ymgeisydd i fagu plentyn a allai fod wedi dioddef trawma ac ansefydlogrwydd.** | |

## 2. Ymweliadau â phlant unwaith y bydd y lleoliad yn dechrau

### Y Fframwaith Cyfreithiol

*Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005*

*Rheoliad 37(5):*

*Rhaid i'r AF –*

*(a) Sicrhau yr ymwelir â'r plentyn a'r darpar fabwysiadwr o fewn wythnos i'r lleoliad ac wedi hynny o leiaf unwaith yr wythnos tan yr adolygiad cyntaf ac wedi hynny mor aml ag y mae'r asiantaeth yn penderfynu ym mhob adolygiad;*
*(b) Sicrhau bod adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu llunio am ymweliadau o'r fath; a*
*(c) Darparu'r fath gyngor a chymorth i'r darpar fabwysiadwr ag y mae'r asiantaeth yn ei ystyried yn angenrheidiol.*

Cyfrifoldeb y gweithiwr cymdeithasol gofal plant yw cynnal yr ymweliadau a amlinellir uchod. Ni ellir eu cynnal gan weithiwr cymdeithasol o'r gydweithfa fabwysiadu neu'r AMG.

Dyma'r nifer isaf cyfreithiol o ymweliadau y dylai gweithiwr cymdeithasol y plentyn eu gwneud, gydag ymweliadau ychwanegol yn cael eu cynnal fel rhan o gynllun ymyrraeth lle mae pryderon ynghylch ansawdd a/neu hyfywedd y lleoliad gan gynnwys pan fo'r darpar fabwysiadwr/fabwysiadwyr yn nodi unrhyw bryderon am eu lles emosiynol eu hunain neu eu gallu i reoli anghenion y plentyn.

Bydd gweithiwr cymdeithasol y gydweithfa ranbarthol a gweithiwr cymdeithasol yr AMG hefyd yn ymweld â'r lleoliad yn ogystal ag ymweliadau statudol gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Mae'n arfer da cynnal yr ymweliadau hyn yn wythnosol tan yr adolygiad cyntaf. Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan sicrhau bod ymweliadau'n cael eu cynllunio i ddarparu'r cymorth gorau i'r lleoliad a'r wyliadwriaeth fwyaf effeithiol. Dylid adolygu nifer yr ymweliadau a wneir, yn statudol ac yn anstatudol, mewn modd cydweithredol a'u trafod o dan oruchwyliaeth os bydd anawsterau'n codi.

Rôl y gweithiwr cymdeithasol gofal plant yw cynnal ffocws clir ar ddiogelwch a lles y plentyn. Rôl y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu (a'r AMG) yw rhoi cymorth i'r lleoliad, wrth barhau i allu rhoi'r plentyn wrth wraidd ei waith. Am ragor o arweiniad ar yr angen am gymorth yn ystod camau cynnar lleoliad, ewch i Ganllaw Arfer Da y GMC i Bontio a Chymorth Cynnar.

Bydd **pob ymweliad** ar ôl lleoli plentyn gyda'r mabwysiadwyr yn cael ei gynnal **wyneb yn wyneb** oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n gofyn am gyfarfod rhithiol 'untro' ychwanegol. Os felly, mae'n ofynnol i bob gweithiwr ofyn am awdurdodiad gan ei reolwr llinell cyn i'r ymweliad/cyfarfod gael ei gynnal.

<u>Disgwyliadau o ran ymweliadau</u>

Ar gyfer pob ymweliad gan weithiwr cymdeithasol y plentyn, disgwylir y canlynol:

- Bydd y plentyn yn cael ei weld ar ei ben ei hun
- Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn edrych ar unrhyw risgiau posibl i'r lleoliad trwy arsylwi ac asesu'r sefyllfa bresennol.

## 3. Cofnodi'r ymweliadau (rheoliad 37(5)(b))

Rhaid i'r cofnod, a wneir gan weithiwr cymdeithasol y plentyn, gynnwys y canlynol:

- Pwy oedd yn bresennol yn yr ymweliad?
- A welwyd y plentyn yn yr ymweliad ac a gafodd ei weld ar ei ben ei hun?
- A welwyd unrhyw blant eraill yn yr aelwyd?
- Beth gafodd ei drafod yn ystod yr ymweliad?
- A drafodwyd unrhyw anafiadau/afiechydon/ymweliadau meddyg teulu neu ysbyty? A welwyd unrhyw un gan weithiwr cymdeithasol?
- A sylwyd ar unrhyw bryderon neu a drafodwyd unrhyw bryderon yn ystod yr ymweliad?
- Pa gyngor a roddwyd ac a nodwyd unrhyw anghenion cymorth pellach?
- A yw'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu yn ymwybodol o'r anghenion cymorth a nodwyd a'r cynlluniau ar gyfer cysylltu ag ef/â hi?
- A oes unrhyw gamau y mae angen eu cymryd, ac eithrio darparu cymorth, yn dilyn y cyfarfod, gan gynnwys unrhyw gamau diogelu?

Gweler Atodiad 3(a) ar gyfer y daflen cofnodi achos ar gyfer gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Gall hefyd gael ei ddefnyddio gan y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu lle mae angen hysbysu gweithiwr cymdeithasol y plentyn am unrhyw bryderon diogelu. Dylai'r cofnodi fod yn ychwanegol at y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu sy'n cysylltu â gweithiwr cymdeithasol y plentyn trwy e-bost (neu ei reolwr yn ei absenoldeb).

Pan fydd pryder yn codi yn ystod neu rhwng ymweliadau, dylai'r gweithiwr cymdeithasol gofal plant a'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu gyfathrebu â'i gilydd cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl i'r pryder godi neu gael ei gyfleu i'r naill weithiwr. Os nad yw'r gweithiwr sy'n derbyn ar gael, yna dylid rhoi gwybod am y pryder i'w reolwr tîm.

Dylid rhannu pob cofnod o ymweliadau a thrafodaethau â darpar fabwysiadwyr rhwng y gweithiwr cymdeithasol gofal plant a'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu.

Lleoliadau pellter hir:

Dylai pob ymweliad â phlant mewn lleoliadau mabwysiadol gael eu cynnal gan y gweithiwr cymdeithasol gofal plant ac mae hyn yn parhau i fod yn wir pan fydd plant yn cael eu lleoli o bell o'r asiantaeth leoli. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai rheolwr llinell gweithiwr cymdeithasol gofal plant, neu aelod arall o'r tîm gofal plant (sy'n adnabod y plentyn) gynnal yr ymweliad ar ei ran. Dylid ystyried y pellter yn ystod y cam cynllunio lleoliadau a'r dyddiadau dros dro y cytunwyd arnynt gyda'r gweithiwr gofal plant fel bod ganddo ddigon o amser i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Ymweliadau dirybudd

Dylid cynnal yr ymweliadau hyn o leiaf unwaith yn ystod tri mis cyntaf y lleoliad ac wedi hynny bob chwarter. Gall y gweithiwr cymdeithasol gofal plant neu'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu gynnal yr ymweliadau (yn ddelfrydol, ymarferydd sy'n adnabod y teulu'n dda ac sy'n gallu asesu'r hwyliau a'r awyrgylch cyffredinol yn y cartref). Efallai y bydd mwy o ymweliadau os bydd amgylchiadau'n gofyn am hynny.

Pan fo un darpar riant mabwysiadol yn gweithio a/neu nad yw gartref.

Os yw un darpar riant mabwysiadol yn debygol o fod oddi cartref yng nghamau cynnar y lleoliad, dylai'r cynllun cymorth adlewyrchu sut y bydd y lleoliad yn cael ei gefnogi yn ystod y cyfnod hwn. Pan fydd trefniadau'n dod yn hysbys am y lleoliad neu'n dechrau ar ôl i'r lleoliad ddechrau, dylid cynnal trafodaeth agored a gonest â'r ddau fabwysiadwr i ystyried y risgiau a'r heriau y gallai'r partner sy'n weddill ddod ar eu traws. Yn ystod y cyfnod hwn, dylai gweithwyr cymdeithasol achub ar bob cyfle i weld y ddau fabwysiadwr gyda'i gilydd pryd bynnag y bo hynny'n bosibl ac, yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r effaith y gallai absenoldeb un gofalwr ei chael ar y plentyn, dylent hefyd fod yn effro i'r naill barti neu'r llall geisio osgoi neu ddiystyru unrhyw heriau posibl y gallent fod yn eu hwynebu.

Dylai darpar rieni mabwysiadol allu deall pwysigrwydd cymryd amser i gyflawni eu rhwymedigaethau rheoleiddio mewn perthynas â bod ar gael ar gyfer ymweliadau a sicrhau bod y plentyn ar gael i'w weld gan weithiwr cymdeithasol y plentyn.

Dylid cynnal adolygiad o'r ymweliadau a gynhaliwyd o dan oruchwyliaeth gyda gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu'r plentyn, er mwyn sicrhau y glynir wrth y gofynion rheoleiddio, a bod ymweliadau ychwanegol wedi digwydd lle bo hynny'n briodol.

**Atodiad 3: Rhestr Wirio Ymweliad Statudol Mabwysiadu (GCP a'r GCM)**

Mae'r rhestr wirio hon wedi'i dylunio i gynorthwyo'r gweithiwr cymdeithasol sy'n ymgymryd â'r ymweliad gyda phwyntiau i'w hystyried a gellid eu defnyddio i gymryd nodiadau yn ystod yr ymweliad. Dylid rhannu cofnod o'r ymweliad rhwng y gweithiwr cymdeithasol gofal plant a'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr ymweliad:** | |
| **Teulu:** | |
| **Plentyn/plant:** | |
| **Pwy a welwyd:** | |
| **Trafodaeth**<br>Sut maen nhw'n ymdopi, unrhyw straen, materion, trefnau arferol, gweithgareddau | |
| **Addysg**<br>Dechrau ysgol/meithrinfa/gofal plant | |
| **Cymorth**<br>Pa fynediad sydd wedi bod i wasanaethau cymorth, y teulu ehangach, rhwydweithiau cymorth? Pa gymorth y gallai fod angen ei hystyried?<br>**GCM** A yw'r mabwysiadwyr yn ymwybodol o'r holl gymorth sydd ar gael i'w gynnig gan y rhanbarth? | |
| **Ymweliadau**<br>Pwy arall sydd wedi ymweld â'r lleoliad (e.e. ymwelydd iechyd)? A godwyd unrhyw faterion?<br>Pwy oedd yn bresennol yn yr ymweliad?<br>A welwyd y plentyn ar ei ben ei hun? | |
| **Ymweliadau iechyd -** Unrhyw Feddyg Teulu/Ymwelydd Iechyd/Deintydd/Optegydd/Ysbyty ar gyfer unrhyw aelod o'r teulu? | |
| **Digwyddiadau/Problemau**<br>Cynnwys yr holl anafiadau, problemau iechyd ac unrhyw beth sy'n deillio o gronoleg digwyddiadau arwyddocaol. Hefyd a welwyd unrhyw beth yn ystod yr ymweliad? | |
| **Diweddariadau mabwysiadwr (cyn/ar ôl lleoliad)** Newidiadau PAR, gwaith, iechyd, profedigaethau.<br>**GCM** Unrhyw wiriadau sydd angen eu diweddaru – GDG, meddygol, geirdaon gwaith, gwiriadau ALl, geirdaon ymarferwyr proffesiynol a ffrindiau | |

| | |
|---|---|
| **Arsylwadau gyda'r plentyn yn ystod ymweliad/dymuniadau a theimladau'r plentyn -** Ymlyniadau, perthnasoedd, trefnau arferol, brodyr a chwiorydd, chwarae/gweithgareddau | |
| DS: Sut/pryd bydd cynnwys yr ymweliad hwn yn cael ei rannu â GCP/GCM | |
| **Myfyrio, sylwadau, pryderon?** | |

| **Camau sydd eu hangen** | **Pwy** | **Pryd** |
|---|---|---|
| | | |

## 4. Defnyddio cronolegau amlasiantaethol

Mae'r defnydd o gronoleg amlasiantaethol mewn lleoliad mabwysiadol yn rhoi cyfle i adnabod patrymau ymddygiad neu gyflwyniadau a allai arwain at ddarparu cymorth mabwysiadu ychwanegol a/neu gasgliad bod angen atgyfeiriad diogelu/amddiffyn plant.

Mae angen gweld digwyddiadau arwyddocaol ym mywyd plentyn yng nghyd-destun ei hanes a'i amgylchedd. Bydd y gronoleg yn cael ei defnyddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithiwr cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu'r plentyn am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol a bydd yn cael ei hadolygu gan y Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) ym mhob adolygiad.

Beth yw 'digwyddiad arwyddocaol' i'w ychwanegu at y gronoleg?

- Unrhyw beth sy'n cynnwys taith i Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu uned mân anafiadau
- Unrhyw apwyntiad meddyg teulu brys
- Unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain lle mae'r plentyn yn dioddef anaf sy'n arwain at gleisiau neu doriadau
- Unrhyw salwch sy'n fwy difrifol na thymheredd bach/annwyd neu fola tost neu sy'n para am fwy na 3 diwrnod
- Unrhyw adeg pan fydd rhywun yn gofalu am y plentyn am dros dair awr heb wybodaeth a chydsyniad yr AA.

Rhaid i'r cofnod nodi pa riant/oedolyn sy'n trafod y plentyn ag asiantaeth neu'n cyflwyno'r plentyn i ymarferydd meddygol.

Bydd y gronoleg yn cael ei thrafod yn:

- Sesiwn oruchwyliaeth y gweithiwr cymdeithasol gofal plant
- Sesiwn oruchwyliaeth y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu
- Adolygiad y plentyn.

Pan fydd unrhyw bryderon yn codi o ganlyniad i adolygiad o'r gronoleg, dylid cynnal cyfarfod rhwydwaith i benderfynu ar gamau gweithredu.

**Atodiad 4a: Cronoleg o ddigwyddiadau/gwybodaeth arwyddocaol i blant sydd wedi'u lleoli i'w mabwysiadu**

- ***Cyfrifoldeb asiantaethau unigol yw cynnal eu cronoleg a'i chyflwyno i'w hystyried yn barod ar gyfer yr adolygiad mabwysiadu statudol***
- ***Rhaid i'r SAA sicrhau bod y cronolegau hyn yn cael eu hystyried a'u trafod yn y fforymau perthnasol a'u hanfon fel rhan o unrhyw gofnodion***

Manylion y plentyn:

| | |
|---|---|
| Enwau cyntaf | |
| Cyfenw | |
| Rhywedd | |
| Dyddiad geni | |
| Dyddiad y cyfarfod adolygu | |

| Dyddiad | Ffynhonnell yr wybodaeth | Digwyddiad allweddol | Y camau a gymerwyd/sy'n angenrheidiol | Dadansoddiad | Cofnodwyd yr wybodaeth gan |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd gan:** | | | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |

**Atodiad 4b: Gwybodaeth i ddarpar rieni mabwysiadol ar elfennau diogelu eich rôl pan fydd plentyn yn cael ei leoli gyda chi, hyd nes y gwneir Gorchymyn Mabwysiadu**

Pan fydd plentyn yn cael ei leoli gyda chi gyntaf fel darpar fabwysiadwr, mae'r plentyn yn parhau i fod yn 'derbyn gofal' ac felly'n gyfrifoldeb yr awdurdod lleol (ALl). Bydd gennych gyfrifoldeb rhiant cyfyngedig, fel y nodir yn eich cytundeb cyfrifoldeb rhiant wedi'i lofnodi, ond mae gan yr ALl gyfrifoldeb cyffredinol o hyd am ddiogelwch a lles y plentyn, gan gynnwys y ddyletswydd i gadw'r plentyn yn ddiogel rhag niwed.

Bydd y rhanbarth mabwysiadu, trwy eich gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu a'r awdurdod lleol, trwy weithiwr cymdeithasol y plentyn, yn gweithio gyda chi i gefnogi'r lleoliad a sicrhau eich bod yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnoch i ddarparu amgylchedd diogel i'r plentyn yn yr wythnosau a'r misoedd cyn gwneud Gorchymyn Mabwysiadu.

Mae'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â mabwysiadu yn deall y gall y rhain fod yn gyfnod heriol i deuluoedd sydd newydd eu creu neu eu cwblhau, ac os byddwch yn nodi'r angen am gymorth (a allai fod yn ychwanegiad at yr hyn sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cymorth Mabwysiadu eich plentyn) a/neu gyngor, dylech gysylltu â'ch gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu yn ddi-oed.

Mae'n ofynnol i chi hefyd roi gwybod i'r awdurdod lleol (gweithiwr cymdeithasol y plentyn a/neu'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu) os bydd 'digwyddiad arwyddocaol' sy'n ymwneud â'r plentyn sydd wedi'i leoli gyda chi.

### Beth yw 'digwyddiad arwyddocaol'?

- Unrhyw beth sy'n cynnwys taith i Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu uned mân anafiadau
- Unrhyw apwyntiad meddyg teulu brys
- Unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain lle mae'r plentyn yn dioddef anaf sy'n arwain at gleisiau neu doriadau
- Unrhyw salwch sy'n fwy difrifol na thymheredd bach/annwyd neu fola tost neu sy'n para am fwy na 3 diwrnod

- Unrhyw adeg pan fydd rhywun yn gofalu am y plentyn heb i'r AF wybod amdano neu gydsynio iddo
- Digwyddiad sy'n effeithio'n sylweddol ar eich lles emosiynol chi a/neu'ch teulu (e.e. salwch neu brofedigaeth sydyn) ac a allai effeithio'n sylweddol ar eich gallu i ofalu am y plentyn.

Gallai fod yn anodd i chi benderfynu a yw digwyddiad yn un arwyddocaol. Os oes amheuaeth, dylech fod yn ofalus a thrafodwch â'ch gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr cymdeithasol y plentyn cyn gynted â phosibl.

<u>Cofnodi digwyddiad arwyddocaol</u>

Nid oes dyletswydd gyfreithiol arnoch i gadw cofnodion, ond byddai'n ddefnyddiol iawn, ac er budd pawb, i wneud cofnod byr o unrhyw ddigwyddiad arwyddocaol, cyn gynted ag y bo modd. Rhowch wybodaeth am yr amgylchiadau a oedd yn arwain at y digwyddiad, y digwyddiad ei hun a'ch camau gweithredu yn dilyn y digwyddiad. Yna gallwch anfon hwnnw mewn e-bost at weithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu fel eu bod yn ymwybodol ac yn gallu cynnig cymorth os oes angen.

<u>Pa mor aml mae'r ymweliadau</u>

Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'ch gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu yn ymweld â chi a'r plentyn o fewn wythnos i ddechrau'r lleoliad, ac wedi hynny bydd yn ymweld o leiaf bob wythnos nes bydd yr adolygiad mabwysiadu cyntaf yn cael ei gynnal ar ôl pedair wythnos. Yn yr adolygiad cytunir ar gynllun ymweliadau, ac mae'n debygol y bydd y rhain yn parhau bob pythefnos gan ostwng i ddim llai na phob mis tan yr ail adolygiad mabwysiadu pan gytunir ar gynllun terfynol a fydd yn cwmpasu'r cyfnod hyd nes y bydd y llys yn rhoi Gorchymyn Mabwysiadu.

<u>Ymweliadau dirybudd</u>

O bryd i'w gilydd, bydd naill ai gweithiwr cymdeithasol eich plentyn neu'ch gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu yn ymweld â chi heb wneud trefniant ymlaen llaw. Diben yr ymweliad hwn yw galluogi arsylwi ar y lleoliad yn ystod y diwrnod arferol ac i gael golwg ar drefn arferol y plentyn. Peidiwch ag ofni'r ymweliadau hyn – nid ydym yn ceisio eich dal chi allan mewn unrhyw ffordd, ond mae'n ofynnol i ni sicrhau bod y plentyn yn ddiogel yn eich gofal bob amser. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn trafod yr ymweliad hwn â chi cyn i'r un cyntaf gael ei gynnal ac os oes gennych unrhyw bryderon, trafodwch y rhain â'r gweithiwr cymdeithasol fel y gall eich cynorthwyo i ddeall ei ddiben ymhellach.

## 5. Adolygiadau Statudol (a Mabwysiadu)

### Y Fframwaith Cyfreithiol

*Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005*

*Rheoliad 37(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gynnal adolygiad o achos y plentyn –*

*(a) Ddim mwy na phedair wythnos ar ôl y dyddiad y mae'r plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu ("yr adolygiad cyntaf");*
*(b) Ddim mwy na thri mis ar ôl yr adolygiad cyntaf; ac*
*(c) Ar ôl hynny heb fod yn fwy na chwe mis ar ôl dyddiad yr adolygiad blaenorol, oni bai bod y darpar fabwysiadwr yn dychwelyd y plentyn i'r asiantaeth, neu fod Gorchymyn Mabwysiadu yn cael ei wneud.*

*Rheoliad 37(6) Wrth gynnal adolygiad, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ymweld â'r plentyn a chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol gael barn -*

*(a) y plentyn yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn;*
*(b) …y darpar fabwysiadwr; ac*
*(c) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ei ystyried yn berthnasol,*

*Mewn perthynas â phob un o'r materion a nodir ym mharagraff (7)(a) i (f).*

*Rheoliad 37(7) Fel rhan o bob adolygiad, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried –*

*(a) P'un a yw wedi cael ei roi ai peidio, a yw'r asiantaeth fabwysiadu yn parhau i fod yn fodlon y dylai'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu o hyd;*
*(b) Anghenion, lles, cynnydd a datblygiad y plentyn, ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i ddiwallu anghenion y plentyn neu gynorthwyo datblygiad y plentyn;*
*(c) Y trefniadau presennol ar gyfer cysylltu (gweler isod) ac a ddylent barhau neu gael eu diwygio;*

(d) *… y trefniadau mewn perthynas ag arfer cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, ac a ddylent barhau neu gael eu haddasu;*
(e) *Y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ac a ddylid ailasesu unrhyw angen am y gwasanaethau hynny;*
(f) *Mewn ymgynghoriad â'r asiantaethau priodol, y trefniadau ar gyfer asesu a diwallu anghenion gofal iechyd ac anghenion addysgol y plentyn;*
(g) *… pa mor aml yw'r adolygiadau.*

Bydd yr adolygiad statudol yn cael ei gynnal o fewn yr amserlenni a nodir yn y rheoliadau a disgwylir y bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn, y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu ac unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol arall yn bresennol.

Os oes pryderon am y lleoliad neu os oes unrhyw newidiadau heb eu cynllunio i'r cynllun cymorth mabwysiadu, yna mae angen cyflwyno adolygiad mabwysiadu.

Dylid cynnal 'gwiriad' canol cyfnod rhwng adolygiadau mabwysiadu a bydd yn cynnwys yr SAA, gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu. Byddai hyn tua wythnos 10 os yw rhwng yr adolygiad cyntaf a'r ail adolygiad. Gallai'r gwiriad canol cyfnod fod ar ffurf cyfnewid e-bost, sgwrs dros y ffôn neu gyfarfod Teams byr.

Bydd y gwiriad canol cyfnod yn gallu adolygu unrhyw gynlluniau ar gyfer cais am y Gorchymyn Mabwysiadu y gellir ei wneud ar ôl wythnos 10. Os oes pryderon ynghylch y cais, gall yr SAA ddod â'r ail adolygiad ymlaen.

## Atodiad 5: **Rhestr wirio o feysydd y bydd angen i'r adolygiad mabwysiadu eu hystyried**.

| Meysydd i'w hystyried | |
|---|---|
| **Ymweliadau statudol gan Weithiwr Cymdeithasol y Plentyn a'r Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu** | Ydyn nhw'n cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol?<br>Ymweliadau â rhybudd ac ymweliadau dirybudd<br>A welwyd y ddwy set o fabwysiadwyr?<br>A welwyd y plentyn ar ei ben ei hun? A welwyd y plentyn ar ei ben ei hun?<br>A dderbyniwyd cofnodion GCP/GCM gan yr SAA cyn yr adolygiad? |
| **Iechyd** | Ydy'r plentyn wedi cael ei weld gan y meddyg teulu/ysbyty ers ei leoliad/adolygiad diwethaf<br>A oedd unrhyw un o'r ymweliadau hyn yn frys?<br>A yw'r ymwelydd iechyd wedi gweld y plentyn?<br>A yw'r plentyn wedi'i gofrestru gyda'r optegydd/deintydd?<br>Unrhyw broblemau iechyd newydd? |
| **Addysg** | A yw'r plentyn wedi'i gofrestru gyda'r ysgol/feithrinfa?<br>Beth yw'r cynllun i'r plentyn ddechrau'r ysgol?<br>Unrhyw newidiadau i angen y plentyn a nodwyd? |
| **Hunaniaeth** | A yw newid enw'r plentyn yn cael ei ystyried? |
| **Cyswllt** | Beth yw trefniadau cyswllt y Gorchymyn Cyn Mabwysiadu - a yw'r profformas perthnasol wedi'u cwblhau a'u llofnodi? A yw'r cynllun cyswllt y |

| Meysydd i'w hystyried | |
|---|---|
| | Gorchymyn Ôl-fabwysiadu yn glir ac wedi'i gytuno? (Ail adolygiad)<br>Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer cyswllt â rhieni biolegol, teulu estynedig, brodyr a chwiorydd/gofalwyr maeth?<br><br>A gynhaliwyd cyfarfod rhwng y mabwysiadwyr/rhieni biolegol?<br><br>A yw adroddiad setlo i mewn wedi'i rannu â'r rhieni biolegol? Os nad yw, pwy fydd yn gwneud hyn? |
| **Gwaith Taith Bywyd**<br>**Adolygiad mabwysiadu cychwynnol**<br><br><br><br><br><br><br>**Adolygiad Canol Cyfnod**<br><br><br><br><br>**Ail adolygiad mabwysiadu** | A ddarparwyd copi drafft i'r SAA o Waith Taith Bywyd (GTB) a Llythyr Bywyd Diweddarach (LlBD) gan y panel paru?<br>A wnaeth y Panel ddarparu unrhyw adborth mewn perthynas â'r drafftiau?<br><br>A yw'r GC ar y trywydd iawn i gwblhau fersiwn derfynol y GTB a'r LlBD heb fod yn hwyrach na'r ail adolygiad. Os nad yw ar y trywydd iawn, rhaid i'r SAA/FFSW ei uwchgyfeirio at reolwr y tîm GCP/tîm FF.<br><br>**A yw'r fersiynau terfynol o'r LlBD a'r GTB wedi'u cwblhau a'u darparu i'r mabwysiadwyr? (Mae'n rhaid i hyn ddigwydd ddim hwyrach na'r ail adolygiad)** |
| **Cynllun Cymorth Mabwysiadu** | A oes unrhyw anghenion cymorth mabwysiadu newydd wedi'u nodi? A oes angen diweddaru'r CCM? |
| **Barn ar y lleoliad** | Barn GCP/GCM ar y lleoliad. Sut mae'r plentyn wedi setlo? A oes unrhyw bryderon wedi codi? A oes unrhyw anghenion cymorth mabwysiadu newydd wedi'u nodi? A oes lle wedi'i gadw ar gyfer y mabwysiadwyr mewn grŵp rhianta a/neu grŵp cymorth therapiwtig? A fu unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon diogelu sylweddol? Os felly, pa gamau sydd wedi cael eu cymryd gan yr ALl neu pa gamau sydd angen eu cymryd? |
| **A welwyd y plentyn yn yr adolygiad** | Do/Naddo |
| **Pa mor aml y bydd ymweliadau statudol gan Weithiwr Cymdeithasol y Plentyn yn y dyfodol?** | |

| Meysydd i'w hystyried | |
|---|---|
| **Adolygiad mabwysiadu cyntaf - 4 wythnos**<br><br>**Amser y cais mabwysiadu a'r dyddiad cau ar gyfer Atodiad A** | Gall mabwysiadwyr wneud eu cais mabwysiadu ar ôl i'r plentyn gael ei leoli gyda nhw am 10 wythnos. Gellir ceisio safbwyntiau'r mabwysiadwyr ynghylch amserlen arfaethedig ar gyfer cais ar ddiwedd yr adolygiad cyntaf gyda therfynau amser wedi'u cytuno ar gyfer paratoi Atodiad A.<br><br>Adolygiad Canol Cyfnod - gallai hyn ymchwilio gyda phartïon allweddol, y GCM, GCP a'r SAA i unrhyw bryderon am y cais sy'n cael ei wneud.<br><br>Ail adolygiad – cadarnhewch y sefyllfa ar gyfer lleoliadau lle nad yw'r cais wedi'i wneud eto. |

**Rôl yr SAA mewn adolygiadau**

- Dylai'r SAA gael mynediad i'r gronoleg 48 awr cyn i'r adolygiad gael ei gynnal.
- Bydd yr SAA yn sicrhau y bydd pob gweithiwr proffesiynol perthnasol yn deall pwysigrwydd presenoldeb mewn adolygiad
- Bydd yr SAA yn sicrhau bod cronoleg aml-asiantaethol digwyddiadau arwyddocaol yn cael ei hystyried yn yr adolygiad a bydd yn gofyn i ddarpar fabwysiadwyr a ydynt am ychwanegu at y gronoleg.

## 6. Rôl teuluoedd a ffrindiau wrth ddiogelu'r plentyn

Bydd rhwydwaith y teulu a'r ffrindiau wedi cael gwybod yn ystod y broses asesu a'i atgoffa ar ôl lleoli bod ganddynt ddyletswydd i geisio cymorth i'r teulu a/neu rannu pryderon ynghylch diogelwch a lles y plentyn, os nad yw'r darpar fabwysiadwyr yn gallu neu'n amharod i ofyn am help eu hunain.

Dylid anfon neu roi taflen 6 i'r canlynol:

- Pob canolwr
- Pob aelod agos o deuluoedd a phob ffrind

ar ddechrau'r lleoliad.

**Atodiad 6:**